# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Remote Meeting on Dydd Iau, 27ain Mai, 2021 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Chairman)<br>County Councillor (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: L.Brown, C.Edwards, M.Groucutt, M.Lane, M. Powell and J.Watkins | Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu |

Also in attendance County Councillors:

**APOLOGIES:** Councillors

1. **Nodi penodiad y Cynghorydd Sir T. Thomas yn Gadeirydd.**

2. **To appoint a Vice-Chair.**

   Cynigiwyd y Cynghorydd Brown gan y Cynghorydd Powell a'i eilio gan y Cynghorydd Lane.

3. **Datganiadau o Fuddiant.**

   Nid oedd buddiannau i'w datgan.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

5. **Cyflwyniad ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru – Trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.**

**Cyflwynodd James Kent (Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Dysgu Proffesiynol) y cyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r aelodau, gyda Darren Jones (Prif Gynghorydd Her) a Sharon Randall-Smith.**

Her:

***O fis Medi'r llynedd, roedd ysgolion i fod i gael blwyddyn lawn o baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Ble mae ysgolion Sir Fynwy bellach mewn perthynas â'r camau paratoi?***

**Rydym wedi siarad â nifer o ysgolion dros y 5-6 mis diwethaf, ynghylch dysgu o bell a chyfunol. Mae yna gontinwwm, o ran parodrwydd: mae rhai ysgolion mewn sefyllfa gref oherwydd eu bod wedi gwneud llawer o waith cyn y pandemig a bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai wrth inni symud ymlaen. Ar hyn o bryd rydym yn siarad ag Estyn a Llywodraeth Cymru am y ddogfen 'Taith i 2022'**

**oherwydd ein bod am sicrhau nad yw ysgolion yn rhuthro - mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn iawn. Rydym yn gwybod bod datblygu dyluniad cwricwlwm yn cymryd blynyddoedd i wneud yn iawn, ac nid ydym am weld canlyniadau anfwriadol o beidio â sicrhau'r ymgysylltiad hwnnw'n iawn. Mae sut mae hynny'n cael ei fframio yn bwysig, a sicrhau bod ysgolion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn cael y cyfle hwnnw i ymgysylltu, yn deall agweddau allweddol fframwaith y cwricwlwm, ac yn cael amser i dreialu a datblygu.**

**Mae dwy agwedd. Roedd pob ysgol mewn lle ychydig yn wahanol cyn y pandemig, ac mae pob un wedi datblygu yn ôl amgylchiadau unigol. Mae COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar rai ysgolion, gyda swigod o ddisgyblion i ffwrdd am gyfnodau sylweddol, tra bod eraill heb. Bu llawer o bethau cadarnhaol yn ystod yr amser hwn hefyd. Mae'r ffordd y mae dysgu rhithwir bellach yn cael ei ddarparu, trwy ddarpariaeth rithwir, wedi galluogi mwy o ysgolion ac ymarferwyr i gymryd rhan yn y sesiynau ymgysylltu. Hefyd, mae'r ffaith bod sesiynau bellach yn cael eu recordio yn golygu y gellir cyrchu dysgu proffesiynol ar adeg sy'n gyfleus, a'i wylio sawl gwaith, os yw hynny'n ddefnyddiol. Dros yr amser hwn, bu ffocws mawr mewn ysgolion ar addysgeg, gan arwain at fwy o gydweithredu mewn ysgolion, rhwydweithio, ac ati. Mae'r pandemig wedi effeithio ar y llinell amser ar gyfer rhai ysgolion, wrth gwrs, ond bu datblygiad medrau newydd a dealltwriaeth yn yr amser hwn hefyd. I'r ysgolion hynny sydd wedi methu â symud ymlaen yn gyflym, bydd cefnogaeth bwrpasol a'r fframwaith o'u cwmpas i barhau â'r dilyniant ar eu cyflymder eu hunain. Mae'n cymryd amser i adeiladu ac ymgorffori cwricwlwm i'n plant.**

**Bydd ysgolion yn cael cefnogaeth gan eu partner gwella ysgol neu eu cyswllt ysgol-i-ysgol. Rydym wedi darparu canllawiau cynllunio datblygu ysgolion i helpu gyda chynllunio strategol dros y flwyddyn nesaf. Mae rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol ar gyfer uwch arweinwyr, penaethiaid ac arweinwyr canol yr ydym wedi'i darparu ar gael yn fyw ac yn anghydamserol. Bydd gennym gymorth dysgu proffesiynol ar gael ar gyfer CALUau a CAau. Mae gennym rwydwaith dylunio cwricwlwm eilaidd i gefnogi ein dirprwy benaethiaid, a rhwydweithiau dysgu ardal a phynciau sy'n edrych ar gynllunio o fewn ac ar draws meysydd dysgu. At hynny, os oes angen cefnogaeth bwrpasol ar ysgolion, byddwn yn darparu hynny hefyd.**

***Mae'n bwysig, pan ddaw'r cwricwlwm newydd i mewn, bod ysgolion yn cael amser i'w fewnosod. A fyddech chi'n cytuno y bydd yr her hon yn anoddach i ysgolion uwchradd, a bod peryglon, mewn dull trawsgwricwlaidd, y mae'n rhaid eu hosgoi?***

**Mae'n mynd i fod yn heriol i ysgolion uwchradd. Un o'r pryderon amdanynt bob amser yw sut olwg fydd ar y cymwysterau. Nid yw'r cwricwlwm hwn yn pennu'r**

model y mae ysgolion yn ei ddefnyddio i gyflawni eu cwricwlwm. Rydym am i arbenigwyr ddysgu yn eu harbenigeddau ond mae dulliau y gall ysgolion eu cymryd. Mae pynciau celfyddydol, er enghraifft, yn arbenigol iawn ond gallai fod thema gyffredin neu set gyffredin o brosesau. Mae bron yn dod yn ddull amlddisgyblaethol wrth i gysylltiadau gael eu gwneud, ond mae athrawon yn dal i ddysgu o fewn eu harbenigedd. Mae angen i ni feddwl am ddylunio'r cwricwlwm cyn amserlennu, ond mae hynny'n heriol oherwydd nifer yr oriau y mae angen eu dyrannu ar gyfer TGAU a Chyfnod Allweddol 3, ac ati. Mae angen amser ar adrannau i feddwl sut y bydd pethau'n gweithio, ac i dreialu gwahanol ddulliau, eu gwerthuso, a chael adborth gan ddisgyblion. Wrth edrych ar themâu trawsgwricwlaidd fel newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, mae'n anodd gweld sut y gellir sicrhau dealltwriaeth gron ohono heb gynnwys gwyddoniaeth, lles ac agweddau eraill.

Gyda'r her gynyddol daw mwy o gefnogaeth. Mae hefyd yn achos o adnabod yr ysgolion yn dda, er mwyn gwybod a fydd y gefnogaeth honno'n gweddu iddynt. Bydd yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen i gael y gostyngiad mewn atebolrwydd uchel y mae ysgolion wedi bod yn destun iddo o'r blaen. Mae'n rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd i ysgolion arbrofi. Er y bydd y cwricwlwm newydd yn her i ysgolion uwchradd, mae hefyd yn gyfle cyffrous. Pan gyflwynodd ysgolion i aelodau am ddysgu cyfunol fe wnaethant nodi eu bod yn edrych ar yr ystod o sgiliau a themâu trawsgwricwlaidd. Wrth gyflwyno dysgu cyfunol i fyfyrwyr, bu'n rhaid i staff fod mewn cysylltiad ag adrannau eraill i wneud y mwyaf o'r cynnig.

*A allwch chi egluro hyblygrwydd y cwricwlwm ymhellach a'r amserlen i'w gyflwyno?*

Dros yr haf, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ysgolion am barodrwydd, i gefnogi unrhyw benderfyniad am y cwricwlwm. Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw y bydd y cwricwlwm yn symud ymlaen o fis Medi 2022, ond byddem yn sicrhau aelodau bod Estyn a GCA yn gwrando ac yn bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru ynghylch pryderon ac anghenion ysgolion o ran amserlenni a disgwyliadau. Rydym yn gwybod bod angen hyblygrwydd oherwydd mae'n rhaid i ni gael hyn yn iawn. Mae dylunio a gweithredu'r cwricwlwm yn broses ailadroddol, sy'n cymryd blynyddoedd i wneud yn iawn.

*A allwn sicrhau bod gan bob pwnc yr un cyfoeth o adnoddau?*

Yn hollol, bydd cefnogaeth ar draws pob maes dysgu a phrofiad, a meysydd disgyblu sy'n bwydo'r meysydd dysgu hynny. Rhaid cael, er mwyn cefnogi ein hathrawon i wneud y gwaith gorau y gallant. Bydd digon o gyfleoedd rhwydweithio i rannu ymarfer, y byddwn yn eu hwyluso, fel y gall ysgolion weld modelau eraill yn ymarferol a gweithio gydag ymarferwyr. Fel rhan o'r cynllunio, bydd ysgolion yn archwilio meysydd pwnc fel rhan o ddylunio'r cwricwlwm, ac yn edrych ar gwmpas sgiliau a datganiadau 'beth sy'n bwysig'. Wrth i ysgolion fynd

trwy dreialu'r cwricwlwm, byddant yn adolygu ac yn archwilio'r rheini. Ni chollir pynciau na medrau - cânt eu haddysgu mewn ffordd fwy cyffrous ac amlddisgyblaethol.

***Os yw ysgolion yn hunanasesu, a fydd profion safonol yn dal i fodoli yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd?***

**Oni bai bod y gweinidog yn penderfynu fel arall, ein dealltwriaeth yw y byddwn yn parhau â'r profion rhyngwladol hynny. Mewn gwirionedd, ein perfformiad yn y rheini yw pam y cyflwynwyd y diwygiadau cwricwlwm yn y lle cyntaf.**

***Sut ydyn ni mewn gwirionedd yn mynd i asesu lle mae ysgolion yn y broses?***

**Bydd yr asesiad yn parhau, gyda phwyslais ar y datblygiad ffurfiannol. Mae unrhyw gasgliad a wnawn am gynnydd naill ai'n grynodol neu'n ffurfiannol, gyda'r cyntaf yn adlewyrchiad efallai o'r cynnydd ar draws cyfnod cyfan o waith. Mae'r wybodaeth honno ar gyfer yr ysgol, i fwydo i'w hunan arfarniad. Bydd yn rhaid i ni wneud y casgliadau hynny yn ein haddysgu a dal y wybodaeth honno o hyd, fel ein bod yn gwybod ble mae'r dysgwyr. Bydd y wybodaeth honno'n dal i fodoli yn y system ond ni fyddwn yn edrych arni ar lefel awdurdod lleol na rhanbarthol. Un o'r rhesymau allweddol am hynny yw nad yw bob amser wedi bod yn ddefnyddiol o ran y sgwrs ynghylch dysgu a chefnogi dysgwyr yn eu cynnydd - mae'r ffocws wedi bod yn ormod ar y niferoedd. Bydd cyfnod o adolygu a hunan arfarnu ar gyfer ysgolion am nifer o flynyddoedd ar ôl Medi 2022. O safbwynt GCA, bydd dysgu proffesiynol, datblygu astudiaethau achos a rhannu ymarfer; bydd ysgolion yn ymgymryd â'r rhain eu hunain hefyd. Bydd cydweithredu yn cynyddu'n sylweddol. Daeth gweithio mewn hybiau yn ystod y pandemig ag ysgolion yn agosach at ei gilydd, gan rannu adnoddau i leihau'r llwyth gwaith, ac ati. Yn yr ysgolion eu hunain, bydd y broses hunan arfarnu yn hanfodol.**

**O safbwynt yr awdurdod lleol, rydym yn cwrdd ag ysgolion yn rheolaidd i edrych ar eu cynnydd. Mae'r ffocws yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod ar yr hunan arfarniadau a'r cynllun datblygu ysgol. Byddwn yn cael cyfle i ddeall sut mae ysgolion yn dod yn eu blaenau mewn perthynas â'r blaenoriaethau hynny, beth yw'r heriau, a sut y gallwn eu helpu, ond hefyd i ddathlu'r cynnydd y maent wedi'i wneud, a'i weld yng nghyd-destun ysgolion eraill.**

***Mae ymgynghoriad yn parhau ar gyfer agor ysgol pob oed newydd, gan ddechrau o 4 oed, gyda chontractwr preifat yn darparu ar gyfer y plant 3 oed ar y safle. Ond y rhesymeg a ddygwyd i'r pwyllgor hwn ac i'r cyngor llawn oedd dros ysgol 3-19. Pryd newidiwyd yr ystod oedran honno yn yr ymgynghoriad, a phwy yr ymgynghorwyd ag ef pan ddaeth y 3-19 yn 4-19?***

**Mae'r ddogfen yn destun ymgynghoriad; felly, yr hyn a rannwyd yw'r ddogfen i'r awdurdod lleol ymgynghori arni. Ar draws y safle, mae darpariaeth ar gyfer 3-19 ac felly, o fewn hynny, beth bynnag yw'r model pan wneir y penderfyniad, byddwn yn dal i sicrhau bod darpariaeth rhwng 3 a 19 ar y safle hwnnw. Bydd sut y**

**cyflawnir yr elfen ar gyfer plant 3-4 oed yn cael ei phennu o ganlyniad i'r ymgynghoriad ond ni fydd yn newid darpariaeth o 3-19 ar y safle hwnnw.**

***A allwn ni sicrhau y bydd hyn yn cael ei drafod y tro nesaf y bydd y pwyllgor hwn yn cwrdd?***

**Ni allwn achub y blaen ar yr hyn a fydd yn digwydd yn yr ymgynghoriad - bydd yn rhaid aros i weld sut mae pobl yn ymateb. Erbyn cyfarfod PPhI ym mis Gorffennaf, bydd gennym dystiolaeth galed o'r hyn y mae pobl yn ei feddwl am y cynnig ysgol newydd.**

***A allwch gadarnhau pan siaradoch â'r cyrff llywodraethu yn Deri View a'r Brenin Harri VIII am y ddarpariaeth newydd, y casgliad oedd y byddai'r staff presennol yn Deri View sy'n darparu'r addysg feithrin yn parhau i wneud hynny, a beth fyddai'n digwydd iddyn nhw os gollen nhw'r ddarpariaeth feithrin honno o fewn cwricwlwm yr ysgol?***

**Nid oeddem yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw felly ni allwn ddweud beth oedd y casgliad. Gallwn ddweud y bydd darpariaeth 3-19 ar y safle. Byddwn yn gwybod beth yw'r adborth i'r ymgynghoriad erbyn cyfarfod y PPhI ar 8fed Gorffennaf, a bydd aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i wneud eu teimladau yn hysbys, y gellir wedyn eu bwydo yn ôl i'r ymgynghoriad.**

***A ellid egluro'r honiad nad yw hanes Cymru yn orfodol?***

**Fel rhan o'r bil yn cyflawni ei daith trwy'r Senedd, roedd yn ofynnol cryfhau safle hanes Cymru yn y cwricwlwm. Felly bydd hynny nawr yn dod drwodd yn gryfach yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a fydd yn rhan orfodol o'r fframwaith. Bydd y grŵp sy'n gyfrifol yn gweithio ar y manylion trwy dymor yr haf.**

***Beth mae TGAU Cymraeg mwy yn ei olygu?***

**Roedd yn gynnig, sydd wedi cael ei ymgynghori, i gryfhau TGAU Cymraeg trwy gael TGAU cyfwerth ag 1.5, ond ar hyn o bryd mae'n gyfwerth ag 1 TGAU. Cawn weld beth yw'r adborth ar yr ymgynghoriad, ac ar yr adeg honno bydd angen i Gymwysterau Cymru ymateb.**

***A fydd TGAU 1.5 yn gwasgu rhywbeth arall allan?***

**Mae TGAU eraill yn addasu hefyd h.y. Mathemateg a Saesneg hefyd o bosibl yn dod yn 1.5, yn hytrach na 2 fel y maent ar hyn o bryd, felly bydd angen i ni edrych ar yr ymgynghoriad cyfan yn y goleuni hwnnw.**

***Beth mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ei gynnwys, a pha fath o gymhwyster ydyw?***

**Dyma'r Fagloriaeth Gymreig gyfredol, a fydd yn cael ei diwygio. Mae iddo 4 elfen: prosiect unigol, Her Menter, Her Gymunedol ac agwedd Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae'n gymhwyster lefel 2 nawr, sy'n cyfateb i TGAU, ac mae llwybr lefel 3 ar Safon Uwch hefyd. Bydd cymwysterau medrau ychwanegol hefyd mewn meysydd eraill ond nid yw'r manylion am hynny yn glir eto.**

***A oes siawns iddo gynnwys pethau fel hyfforddiant ar sut i ysgrifennu brasluniau bywyd?***

**O fewn fframwaith y cwricwlwm mae lle i ysgolion wneud hynny, ond yn gyffredinol mae llai a ragnodir yn y cwricwlwm hwn, er mwyn rhoi’r hyblygrwydd hwnnw. Bydd elfen o ddewis i ysgolion.**

***Yn nhermau'r Ddeddf Lles, faint o adnoddau fydd ar gael ar gyfer gofal bugeiliol y disgyblion hynny a allai fod angen cymorth?***

**Yn sicr bydd parhad cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy gyllid y Rhaglen Dysgu Carlam a chyllid Grant Amddifadedd Disgyblion a fydd yn mynd ymlaen i gefnogi rhaglenni ymyrraeth i ddisgyblion. Ar draws Sir Fynwy, bu cryn dipyn o ddysgu proffesiynol hefyd, ac erbyn hyn mae gan ysgolion ymarferwyr sy'n gallu cefnogi disgyblion yn well. Mae nifer o ysgolion wedi cynyddu ymarferwyr mewn cefnogaeth ELSA a chefnogaeth Thrive, felly i'r disgyblion hynny sydd angen y gefnogaeth honno, mae mwy o ymarferwyr ar lawr gwlad i'w ddarparu. O dan y cwricwlwm newydd, mae'r maes dysgu iechyd a lles yn ei roi wrth wraidd bywyd ysgol. Ni fu ysgolion erioed mor ymwybodol o les - i'r staff yn ogystal â'r disgyblion.**

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i swyddogion am eu gwaith caled. Mae'r cwricwlwm hwn yn weddnewidiad i staff a disgyblion, ond mae yna waith enfawr i'w wneud hefyd o ran cynnwys y rhieni. Mae athrawon wedi addasu mor dda yn ystod COVID-19, o ran dysgu cyfunol ac ati. Byddwn yn galw ar GCA i ddod yn ôl, wrth i'r cwricwlwm fynd yn ei flaen. Gofynnodd y Cynghorydd Brown am sicrhau bod dolen i'r ymgynghoriadau cyfredol ar gael.

6. **Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Bydd y cyfarfod nesaf yn ymdrin â'r ysgol newydd yn y Fenni. Cynigiodd y Cynghorydd Edwards roi Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif yn ôl ar yr agenda ar gyfer cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Atgoffodd y pwyllgor hefyd fod y Prif Swyddog wedi cynnig yn y cyfarfod blaenorol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ei ymweliadau ag ysgolion. Cadarnhaodd Mr McLean fod y rhain yn parhau ac y gallai fod ar gael yn y cyfarfod nesaf (8fed Gorffennaf), os yw'r pwyllgor yn dymuno.

7. **Cynllunydd Gwaith y Cyngor a’r Cabinet.**

8. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir, (a gynigiwyd gan y Cynghorydd Groucott ac eiliwyd gan y Cynghorydd Powell).

9. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

The meeting ended at **11.50 am**